**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

18 Tachwedd 2021

Annwyl Julie

Carthion yn gollwng o orlifoedd stormydd

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Tachwedd 2021, trafodwyd y diwygiadau i Fil Amgylchedd y DU, sydd bellach yn Ddeddf yr Amgylchedd 2021 ('Deddf 2021'), mewn perthynas â rhyddhau carthion heb eu trin, a ystyriwyd yn ystod ping pong.

Rydym yn deall bod Deddf 2021 yn cynnwys darpariaethau sy'n anelu at leihau effaith andwyol gollyngiadau ymgymerwyr carthffosiaeth o orlifoedd stormydd yn Lloegr, gan gynnwys:

- gofyniad i ymgymerwyr carthffosiaeth sicrhau gostyngiad cynyddol yn effaith andwyol gollyngiadau o'u gorlifoedd stormydd;
- gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi cynllun lleihau gollyngiadau gorlifoedd stormydd ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at ei weithredu;
- gofyniad i ymgymerwyr carthffosiaeth gyhoeddi adroddiadau blynyddol mewn perthynas â'u gorlifoedd stormydd; a
- gofyniad i Asiantaeth yr Amgylchedd gyhoeddi adroddiadau blynyddol mewn perthynas â'u gorlifoedd stormydd.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn perthynas â Chymru.

Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ymateb i'r cwestiynau a ganlyn.

- Beth yw'r trefniadau rheoleiddio cyfredol sy'n rheoli gollyngiadau o orlifoedd stormydd ymgymerwyr carthffosiaeth yng Nghymru?

- I ba raddau y mae'r gofynion yn Neddf 2021 yn golygu bod afonydd ac ardaloedd arfordirol yn Lloegr yn cael eu diogelu'n well rhag effeithiau andwyol carthion yn gollwng o orlifoedd stormydd na'r rhai yng Nghymru?

- Pa waith yr ydych yn ei wneud, neu’r ydych yn bwriadu ei wneud, i leihau gollyngiadau carthion o orlifoedd stormydd yng Nghymru?

- Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi, neu y byddwch yn ei rhoi, i ddeddfu gyda'r nod o leihau effaith andwyol gollyngiadau carthion o orlifoedd stormydd yng Nghymru?

- Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael, neu yr ydych yn bwriadu eu cael, gyda chymheiriaid yn y DU ynghylch lleihau unrhyw effaith andwyol o ollyngiadau carthffosiaeth gorlifoedd stormydd mewn dalgylchoedd trawsffiniol?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn dydd Iau 2 Rhagfyr 2021 fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.